
# Y Lle Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf

## Strategaeth Twf Economaidd Sir Conwy 2017-2027











www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Blaenoriaeth 5

*Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
2017-2022

Awst 2017



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair | 5 |
| 2. | Crynodeb gweithredol | 7 |
| 3. | Y cyd-destun economaidd | 9 |
| 3.1 | Gogledd Cymru | 9 |
| 3.2 | Economi Sir Conwy | 10 |
| 3.3 | Heriau o fewn Sir Conwy | 11 |
| 3.3.1 | Allfudo | 11 |
| 3.3.2 | Tai fforddiadwy | 11 |
| 3.3.3 | Adfywio | 12 |
| 3.3.4 | Pwysau ar y system gofal | 12 |
| 3.3.5 | Cynaliadwyedd gwledig | 12 |
| 3.3.6 | Cyllido | 13 |
| 4. | Themâu trawsbynciol | 15 |
| 5. | Uchelgeisiau economaidd | 17 |
| 5.1 | Safleoedd busnes o’r radd flaenaf | 17 |
| 5.2 | Denu prif swyddfeydd | 19 |
| 5.3 | Presenoldeb addysg uwch | 19 |
| 5.4 | Creu economi nos ac arlwy i ymwelwyr yn y gaeaf | 21 |
| 5.5 | Morlyn ynni’r llanw ac ynni adnewyddadwy | 21 |
| 6. | Cyflawni’r strategaeth | 21 |
| 7. | Dangosyddion | 23 |
| 8. | Casgliad | 25 |
| Atodiad 1: | Dadansoddiad SWOT o economi Sir Conwy | 26 |
| Atodiad 2: | Bwrdd Twf Economaidd Sir Conwy | 29 |
| Atodiad 3: | Nifer o swyddi PAYE (gweithwyr yn ogystal â pherchnogion sy’n gweithio) yn 2015 | 30 |
| Atodiad 4: | Nifer o fentrau TAW a/neu PAYE yn 2016 | 32 |




Digwyddiadau - Gwledd Conwy (llun gan Gwledd Conwy)

# 1. Rhagair

Mae economi Gogledd Cymru ar drothwy cyfnod o newid, heriau a chyfleoedd mawr. Am y tro cyntaf, mae gweledigaeth uchelgeisiol gytûn ar gyfer twf economaidd wedi'i datblygu gan y chwe awdurdod lleol, y sector preifat, a phartneriaid addysg bellach ac uwch drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r weledigaeth hon yn paratoi'r ffordd ar gyfer y cais am dwf y cyfeiriwyd ato yn Natganiad Hydref 2016 y Canghellor, a allai olygu buddsoddi sylweddol mewn datblygiadau seilwaith mawr ar draws y rhanbarth. Byddai'r datblygiadau hyn yn ategu prosiectau strategol graddfa fawr o fewn y rhanbarth fel Wylfa Newydd, Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a datblygiad Orthios yng Nghaergybi. Rhagwelir y bydd y buddsoddiadau hyn yn arwain at greu 120,000 o swyddi newydd ar draws Gogledd Cymru ac yn ychwanegu £7.2biliwn at werth economi'r rhanbarth erbyn 2035. Mae'r holl gynlluniau hyn ar gyfer twf yn digwydd mewn cyfnod pan fo mwy o ffocws ar ddatganoli ac yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Felly beth mae hyn yn ei olygu i economi Sir Conwy? Mae Conwy mewn lle perffaith i fanteisio ar yr holl ddatblygiadau economaidd rhanbarthol hyn. Oherwydd ei lleoliad canolog, bydd yn elwa o'r buddsoddiadau strategol o ran swyddi, cyfleoedd i gyflenwi a gwell cysylltedd. Gall Sir Conwy lwyddo o fewn pob un o dri sector twf strategol a nodwyd y weledigaeth ar gyfer twf: gweithgynhyrchu uwch, ynni a digidol. Mae busnesau cynhyrchu bwyd arloesol yn y sir eisoes a bydd yn bosibl tyfu'r sector hwn drwy fuddsoddi mewn technoleg a safleoedd, yn enwedig mewn perthynas â phrosesu bwyd. O dan thema ynni, gallai Conwy ddarparu morlyn ynni'r llanw a fyddai, yn ogystal â chynhyrchu ynni, yn amddiffyn rhag llifogydd ac yn ategu seilwaith twristiaeth y sir. Ochr yn ochr â hynny, mae capasiti a galluogrwydd digidol yn hanfodol i'r sectorau twristiaeth a chreadigol llewyrchus yng Nghonwy.

Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru, sy'n helpu i wireddu'r Weledigaeth ar gyfer Twf, yn nodi tri sector â blaenoriaeth (ynni, gweithgynhyrchu ac adeiladu) a phedwar sector twf (creadigol a digidol; iechyd a gofal cymdeithasol; twristiaeth a lletygarwch; a bwyd a diod). Mae'r sectorau twf yn berthnasol iawn i economi Sir Conwy gan fod capasiti cynyddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn angen critigol yn y sir. Mae'n bwysig nodi bod sectorau sydd o bwys i economi Conwy sydd heb eu cydnabod yn flaenoriaethau yn yr agenda ranbarthol. Mae gwyddorau'r ddaear, y sector modurol, manwerthu ac amaethyddiaeth i gyd yn chwarae rhan bwysig yn Sir Conwy a byddant yn parhau i gyfrannu at dwf economaidd a ffyniant y sir yn y dyfodol.

Un o brif nodweddion economi Sir Conwy yw nifer sylweddol y busnesau bach a mawr a busnesau micro o fewn y rhanbarth. Mae'r rhain wedi helpu'r sir i ddod drwy'r cyfnod anodd o ddirywiad economaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r effeithiau o dwf araf a chryfder y bunt wedi bod mor amlwg ar draws Conwy ag y maent mewn nifer o rannau eraill o'r wlad. Felly yr allwedd i sicrhau ffyniant economaidd y sir yw datblygu'r cryfderau lleol hyn a chefnogi twf ac arloesi busnes gan fanteisio hefyd ar y datblygiadau strategol ehangach o fewn y rhanbarth.

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â mentrau y gellir ymgymryd â nhw i alluogi busnesau yn y sir i dyfu, arallgyfeirio, uwchsgilio a chystadlu mewn marchnadoedd yn y DU ac mewn gwledydd tramor. Mae'n nodi cyfleoedd strategol a fyddai'n creu swyddi newydd ac yn gwella ansawdd swyddi presennol yn yr economi leol, gan symud o gyflogaeth dymhorol i gyflogaeth drwy'r flwyddyn. Y ffactor pwysig i Gonwy yw hyder: hyder yn yr hyn y mae'n ei gynnig eisoes ac yn ei photensial ar gyfer y dyfodol. Gyda'i chysylltiadau ar ffyrdd, rheilffyrdd a'r môr â Phwerdy Gogledd Lloegr ac Iwerddon, mae Sir Conwy yn lle perffaith ar gyfer busnes. Felly dylai Conwy fod yn uchelgeisiol, yn eofn ac yn allblyg wrth chwilio am gyfleoedd newydd. Drwy weithio gyda'i gilydd, bydd y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn gallu elwa o'r cyfleoedd hyn i dyfu economi'r sir.



Twristiaeth Awyr Agored - Surf Snowdonia



# 2. Crynodeb gweithredol

Ein dyheadau ar gyfer Sir Conwy yw cynyddu cynhyrchiant, cystadleurwydd a thwf yn y sir a'r busnesau sy'n gweithredu yma. Yr uchelgais hwn sydd hefyd yn sbarduno'r Weledigaeth ar gyfer Twf yng Ngogledd Cymru, sy'n nodi cysylltiadau ag Iwerddon a Phwerdy Gogledd Lloegr yn ogystal â datblygiadau strategol yn y rhanbarth gyda'r nod o ychwanegu £20biliwn at Werth Ychwanegol Gros Gogledd Cymru erbyn 2035, gan greu 120,000 o swyddi newydd. Mae Sir Conwy mewn lle perffaith i gyfranogi o'r weledigaeth hon ar gyfer ei thwf economaidd, gan fanteisio ar y cyfleoedd ehangach hyn er budd ffyniant y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y sir.

Rydym hefyd am fuddsoddi mewn sbardunau economaidd allweddol yn Sir Conwy ei hun, er mwyn adeiladu ar sail y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud yn y sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chryfhau ymhellach ein economi busnesau bach a chanolig. Rydym am ymateb i heriau allweddol yn y sir sy'n ymwneud â chyflogau isel, cyflogaeth dymhorol, ran-amser a cholli ein talentau ifanc drwy allfudo. Rydym eisiau annog twf a sefydlu busnesau y gall greu swyddi sydd eu hangen i gynnal cymunedau llewyrchus, iaith a diwylliant o fewn Conwy. Bydd y themâu trawsbynciol canlynol yn hanfodol i gyflawni'r nod hwn:

**Cyflogaeth, sgiliau a phrentisiaethau**
- cynyddu maint y gweithlu a'i allu

**Seilwaith sy'n galluogi twf**
- gwneud y sir yn atynfa i bobl sydd am sefydlu a thyfu busnesau dynamig, blaengar

**Gweddnewid twristiaeth**
- gwneud Conwy yn gyrchfan ryngwladol go iawn drwy'r flwyddyn

**Sicrhau mwy o werth am arian yn Sir Conwy**
- sicrhau bod mwy o'r arian a gynhyrchir yn Sir Conwy yn cael ei wario yn y sir

**Arweinyddiaeth egnïol**
- drwy gydweithio agos rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector

**Ymagwedd hyderus, allblyg**
- elwa o'r cyfleoedd tua'r dwyrain a'r gorllewin

Nod y strategaeth hon ar gyfer twf yw adeiladu ar sail y themâu hyn er mwyn datblygu mentrau tra effeithiol a fydd yn cyfrannu'n helaeth i economi Sir Conwy. Er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau mawr hyn, bydd angen i'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydweithio mewn ffyrdd newydd. Byddant yn galw am fuddsoddi gan sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Ac yn bwysicaf oll, byddant yn galw am weledigaeth, dychymyg ac uchelgais.

Y pum uchelgais ar gyfer tyfu economi Sir Conwy yw:

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| Creu safleoedd busnes o'r radd flaenaf i gynnal twf a denu busnesau newydd | Cymryd camau i ddenu prif swyddfeydd/ canolfannau rhyngwladol i'r sir | Sefydlu presenoldeb addysg uwch yn y sir | Datblygu economi'r nos ac arlwy i ymwelwyr yn ystod y gaeaf ar draws Sir Conwy gan ei gwneud yn gyrchfan i ymwelwyr drwy'r flwyddyn | Hwyluso'r morlyn ynni'r llanw a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill ar draws y sir |



Gwneuthuriad - Evadx



Bydd yr uchelgeisiau hyn yn datblygu busnesau presennol, yn denu rhai newydd, yn creu swyddi o ansawdd da sy'n para drwy'r flwyddyn ac yn cadw talentau ifanc yn y sir. Gweledigaeth eofn a hyderus yw hon sy'n chwilio am gyfleoedd newydd ac yn hyrwyddo'r hyn sydd gennym mewn marchnadoedd ehangach. Dros amser bydd yn sicrhau:

- £1biliwn o werth economaidd o dwristiaeth i'r sir
- 3,500 o swyddi ar gyflogres o fewn y sir
- Cynnydd yng nghyfran y swyddi amser llawn o 59% i 70%
- Cynyddu'r cyflog cyfartalog i 95% o gyfartaledd y DU

Pwrpas y nodau hyn yw cyfrannu at wireddu ein huchelgais cyffredinol i gynyddu cynhyrchiant a chystadleurwydd a fydd yn creu swyddi a ffyniant i'n sir, a hefyd yn ategu'r blaenoriaethau yn y Weledigaeth ar gyfer Twf sydd wedi'i datgan gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

# 3. Y Cyd-destun economaidd

## 3.1 Gogledd Cymru

Mae'r strategaeth hon ar gyfer twf economaidd yng Nghonwy wedi'i datblygu yng nghyd-destun y Weledigaeth ehangach ar gyfer Twf Economaidd yng Ngogledd Cymru. Lluniwyd y Weledigaeth ar gyfer Twf drwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n ceisio gweithio ar lefel ranbarthol i ddatgloi potensial yr ardal, a chydweithio ar themâu fel seilwaith trafnidiaeth, sgiliau, safleoedd strategol a thwf a menter eiddo a busnes. Mae'n canolbwyntio ar dri brif sector strategol: gweithgynhyrchu uwch, ynni a digidol. Ei nodau penodol yw:

- Sicrhau 120,000 o swyddi a thyfu economi'r rhanbarth o £12.5biliwn i £20biliwn erbyn 2035
- Cydweithio ar y prosiectau trawsnewidiol sy'n datblygu ar draws Gogledd Cymru, megis Wylfa Newydd, Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc), Parc Eco Orthios, Carchar EM Berwyn, Canolfan Ynni Wrecsam, Parc Adfer a Lagŵn Llanw Bae Colwyn
- Meithrin partneriaethau cryfach â Chynghrair Mersi Dyfrdwy, a Phwerdy Gogledd Lloegr wrth iddo ddatblygu
- Lobïo i gael buddsoddi cyfalaf strategol ychwanegol drwy gytundeb twf ar gyfer y rhanbarth
- Lobïo o blaid buddsoddiad o £1biliwn yn seilwaith rheilffyrdd Gogledd Cymru a Swydd Gaer drwy ymgyrch Growth Track 360

Mae cyfleoedd penodol yng Nghonwy yn y Weledigaeth ar gyfer Twf, yn cynnwys y morlyn ynni'r llanw a'r safleoedd datblygu strategol ym Morfa Conwy a De-ddwyrain Abergele. Byddwn hefyd yn elwa'n uniongyrchol o'r buddsoddiadau arfaethedig yn y seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y cyfle mwyaf i Gonwy yn gyffredinol yn y Weledigaeth ar gyfer Twf yn codi o leoliad canolog y sir sy'n rhoi mynediad iddi at y buddsoddiadau o filiynau o bunnoedd tua'r dwyrain a'r gorllewin. Bydd y datblygiad £12biliwn yn Wylfa Newydd yn creu o leiaf 1,500 o swyddi yng Ngogledd-orllewin Cymru, a bydd 10,000 o weithwyr ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf. Rhaid i Sir Conwy fod yn barod i fanteisio ar Wylfa Newydd a datblygiadau strategol eraill yn y rhanbarth, yn enwedig y gweithfeydd gweithgynhyrchu mwyaf yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam. Mae angen rhoi cymorth i fusnesau lleol i'w galluogi i ddeall a manteisio ar gyfleoedd mewn cadwyni cyflenwi. Bydd angen hybu ymwybyddiaeth, prentisiaethau, hyfforddiant a sgiliau ar gyfer gweithlu Conwy yn awr ac yn

y dyfodol, o lefel yr ysgol gynradd ymlaen. Y rhai sy'n cymryd camau i'w paratoi eu hunain fydd yn elwa fwyaf o'r prosiectau strategol hyn, ac mae Conwy mewn lle delfrydol i wneud hyn.

## 3.2 Economi Sir Conwy

Y sector gwasanaethau yw'r sector mwyaf yn economi Sir Conwy. Mae hyn yn cynnwys twristiaeth, llety, gofal, y sector cyhoeddus a manwerthu. Mae'r rhain yn darparu 89.7% o'r swyddi yn y sir. Ledled y sir, mae 41% o swyddi'n rhai rhan-amser oherwydd y lle blaenllaw sydd i'r sectorau twristiaeth a manwerthu yn ogystal â dewis o ran ffordd o fyw. Mae ein sector gofal o dan bwysau mawr, ac mae angen cymorth i helpu i sefydlogi a thyfu'r sector hwn.

Mae Conwy yn ymfalchïo yn ei diwylliant entrepreneuraidd ffyniannus ac mae'r cyfraddau ar gyfer hunangyflogaeth a dechrau busnesau yn codi o flwyddyn i flwyddyn. Mae canran y gweithwyr hunangyflogedig yn y sir yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwedd bwysig yn ein heconomi yw ein bod yn denu cwmnïau sy'n dechrau o'r newydd ac mai'r cyfraddau ar gyfer parhad busnesau yw'r uchaf yng Ngogledd Cymru, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr; tystiolaeth bendant bod Conwy yn lle rhagorol i sefydlu busnes.

Busnesau bach a chanolig yw'r brif elfen yn sylfaen busnes Conwy, yn enwedig busnesau micro, gan fod 73.7% o fusnesau'n cyflogi 0-4 o weithwyr. Dim ond pum busnes sydd â mwy na 250 o gyflogeion ac felly'n uwch na'r trothwy ar gyfer busnes bach a chanolig. Mae nifer o berchenogion tir mawr yn y sir hefyd sy'n cyfrannu'n helaeth i'r economi. Er enghraifft, mae Ystad Mostyn wedi buddsoddi tua £120miliwn yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n chwarae rhan hollbwysig o ran mewnfuddsoddi drwy ddenu busnesau newydd i'r rhanbarth.

Y sector sydd â'r ganran fwyaf o fusnesau yw'r sector amaethyddol, sy'n cynnwys mwy na 16% o fusnesau. Mae hyn yn adlewyrchu natur wledig rhan helaeth o'r sir. Mae'r sector llety a gwasanaethau bwyd hefyd yn cynnwys cyfran fawr o fusnesau (13%) oherwydd y lle blaenllaw sydd i'r diwydiant ymwelwyr yn yr ardal. Mae cyd-ddibyniaeth y tri sector hwn yn bwysig nid yn unig fel sylfaen economi Conwy ond hefyd fel synnwyr o hunaniaeth. Mae sectorau sgiliau uchel (proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gwybodaeth a chyfathrebu) wedi'u tangynrychioli yng Nghonwy o'u cymharu â Phrydain Fawr gyfan.

Er bod busnesau yn Sir Conwy yn fach, maent yn masnachu'n rhyngwladol ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod eu gwasanaethau a chynhyrchion yn cael eu cydnabod ledled y byd mewn meysydd mor amrywiol â bwyd, y sector niwclear, adeiladu ym maes treftadaeth, gwyddorau'r ddaear ac ymchwil. Mae ein sector twristiaeth a'r busnesau sy'n rhan ohono hefyd yn adnabyddus ar lefel fyd-eang. Cryfder Conwy yw amrywiaeth y busnesau bach sy'n gweithredu o fewn y sir ac ansawdd ac arbenigedd y cynhyrchion a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Mae nifer mawr o'r busnesau yn Sir Conwy yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r iaith yn gwneud y busnesau hyn yn neilltuol, yn enwedig ym maes twristiaeth lle mae pobl yn chwilio am brofiad o wahanol ddiwylliannau a lle mae clywed yr iaith yn cyfoethogi profiad yr ymwelydd. Wrth ystyried sut i dyfu economi'r sir, mae'n bwysig ystyried sut y bydd y twf hwn yn gallu cryfhau iaith a diwylliant yr ardal.

Yn ogystal â'i hysbryd entrepreneuraidd cryf, ceir ysbryd cymunedol cryf yn y sir hefyd sydd wedi helpu i ddatblygu trydydd sector cryf. Mae 142 o Fentrau Cymdeithasol wedi'u cofrestru yn y sir ac mae hyn wedi helpu Conwy i ennill statws 'Lle Menter Gymdeithasol', un o ddim ond dwy ardal yng Nghymru sydd wedi sicrhau'r dynodiad hwn. Mae natur y gwasanaethau a ddarperir gan y mentrau hyn yn amrywio ond mae pob un ohonynt yn arddel gwerthoedd craidd sy'n eu cymell i gynnal eu cymunedau ac ailfuddsoddi ynddynt, boed yng nghyswllt yr amgylchedd neu mewn perthynas â'r preswylwyr eu hunain. Mae'r busnesau hyn yn chwarae rhan allweddol drwy sicrhau bod gwasanaethau cymunedol yn gynaliadwy; drwy ddatblygu'r gwasanaethau hynny i ehangu eu hapêl er mwyn ailfuddsoddi elw yn lleol; a thrwy gynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith a hyfforddiant i bobl sydd am ba reswm bynnag ar gyrion y farchnad lafur.



Mae cymudo yn nodwedd allweddol i economi Sir Conwy. Mae 66,900 o bobl o oedran gweithio yn y sir (amcangyfrif canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2014) a dim ond 41,500 o swyddi ar gyflogres (cofrestr busnesau ac arolwg cyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Ond gan fod lefelau diweithdra yn isel, ceir lefelau uchel o gymudo: mae 29% yn cymudo o'r sir i'w lle gwaith. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y cyfleoedd a fydd yn codi tua'r dwyrain a'r gorllewin i'r sir ym mlynyddoedd y dyfodol.

Mae awdurdod addysg ac ysgolion Conwy yn helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau da ac yn eu hysbysu am gyfleoedd cyflogaeth yn y rhanbarth yn y dyfodol. Mae nifer cynyddol o ddysgwyr yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg a Saesneg ac mae hyn yn hanfodol ar gyfer diwylliant, cymunedau a busnesau yng Nghonwy a Gogledd Cymru. Mae lefelau'r prentisiaethau yn uchel ac mae'r perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yng nghyswllt sgiliau lefel uwch, mae Conwy yn perfformio'n dda ac mae'r ganran sydd â chymwysterau ar lefel NQF4+ hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

*Mae dadansoddiad SWOT o economi Conwy yn Atodiad 1.*

## 3.3 Heriau o fewn Sir Conwy

Mae'r Strategaeth hon yn ymdrin â phob un o'r heriau economaidd canlynol o fewn Sir Conwy ac yn cynnig mesurau i'w lliniaru lle bo modd.

### 3.3.1 Allfudo

Un her sylfaenol i Sir Conwy yw delio ag allfudo gan dalentau ifanc o'r sir. Mae nifer mawr o'n pobl ifanc yn ymgartrefu y tu allan i'r sir ar ôl gadael prifysgol wrth chwilio am gyflogaeth ar lefel graddedigion. Mae hyn yn ei dro yn bygwth dyfodol y Gymraeg a'i diwylliant gan fod y rheini sydd wedi'u magu i siarad yr iaith yn magu eu teuluoedd eu hunain mewn mannau eraill. Mae'r ateb i'r her hon yn amlweddog ac wedi'i adlewyrchu yn yr heriau a'r uchelgeisiau sy'n dilyn. Mae ar bobl ifanc angen addysg o ansawdd uchel o'r ysgol gynradd i addysg uwch; addysg sy'n eu paratoi ar gyfer y nifer mawr o gyfleoedd swyddi sydd ar gael yng Ngogledd Cymru. Mae angen hefyd iddynt wybod beth yw'r cyfleoedd swyddi hyn. Mewn rhai achosion, ym maes twristiaeth er enghraifft, mae angen iddynt wybod bod y cyfleoedd yn ehangach nag y maent yn sylweddoli, o bosibl, felly mae angen cydymdrech ar draws y sir i ddangos bod twristiaeth a hamdden yn gallu cynnig gyrfaoedd sy'n amrywiol ac yn talu'n dda.

### 3.3.2 Tai fforddiadwy

Diffyg tai fforddiadwy yw un o'r heriau mwyaf yn Sir Conwy. Mae dadansoddiad o'r farchnad yn dangos bod prisiau fflatiau a thai rhes, ar gyfer rhentu neu brynu, y tu hwnt i gyrraedd 51.2% o brynwyr tro cyntaf ac aelwydydd newydd, a bod angen tai cymdeithasol ar 27.5% o'r rhain a bod angen perchentyaeth cost isel (canolradd) ar 23.7% ohonynt. Yng Nghonwy y mae'r gyfradd ail isaf o stoc dai gymdeithasol yng Nghymru gyfan gan nad oes ond 12 o dai cymdeithasol am bob 100 o aelwydydd, o'i gymharu â chyfradd o 17 ar gyfer Cymru gyfan. O ganlyniad i brinder tai cymdeithasol, mae nifer mawr o aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol yn dibynnu am lety ar y sector rhent preifat, a hyn sy'n gyfrifol am y gyfran gymharol uchel o dai rhent preifat yn y sir.

Fodd bynnag, nid yw'r sector rhent preifat yn fforddiadwy bob amser i aelwydydd sydd ar incwm is. Mae'r dadansoddiad yn dangos nad yw aelwydydd ag incwm blynyddol yn y chwartel isaf (£13,494) yn gallu fforddio rhenti preifat. Yr incwm blynyddol canolrifol i aelwydydd yng Nghonwy yw £23,730. O ganlyniad i hyn, mae tai mwy sydd â thair neu bedair ystafell wely y tu hwnt i gyrraedd llawer o aelwydydd gan y byddent yn gorfodi talu mwy na 30% o incwm yr aelwyd ar gostau tai. Yn ôl ymchwil gan Shelter a Sefydliad Joseph Rowntree mae costau tai sy'n fwy na 30% o incwm yr aelwyd yn anfforddiadwy. Mae cynllun gweithredu ar dai fforddiadwy yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

## 3.3.3 Adfywio

Er bod sector twristiaeth Sir Conwy yn gryf ac yn tyfu, mae ei waddol o dai llety mawr o'r gorffennol a oedd yn gwasanaethu marchnad dwristiaeth ddomestig gryf hyd at y 1960au a'r 1970au, wedi hybu marchnad dai sector preifat yng nghymunedau'r arfordir sy'n cynnwys tai amlfeddiannaeth yn bennaf. Mae hynny, ynghyd â lefelau cyflog is yn y sector gwasanaethau, wedi arwain at amddifadedd mewn mannau cyfyngedig yn agos i ganol trefi a dirywiad yn ffyniant economaidd y canolau tref hynny.

Mae hyn yn fwyaf cyffredin ym Mae Colwyn, sydd wedi elwa o raglen adfywio bwrpasol ac integredig, 'Bywyd y Bae', ers 2009. Mae'r rhaglen hon wedi ailfuddsoddi yn seilwaith twristiaeth a hamdden y dref, ei stoc dai, canol y dref a'i phobl drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r buddsoddi newydd gan y Cyngor mewn adeiladau ar gyfer swyddfeydd yng nghanol y dref yn arwydd o newid sylweddol ym mhotensial masnachol y dref ac yn cadarnhau rôl y dref fel canolfan fasnachol a gwasanaethau yng nghanol Gogledd Cymru.

Mae ymyriadau adfywio tebyg yn cael eu cydlynu â mentrau cynllunio lle mewn trefi fel Abergele a Llanrwst. Er bod y cyfleoedd yn y ddwy dref yn wahanol iawn, mae angen i'r ddwy ohonynt reoli eu potensial ar gyfer adfywio o ganlyniad i ddyrannu safleoedd sylweddol ar gyfer tai a'r disgwyl y bydd hyn yn cynyddu eu poblogaeth. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y canolau trefi hyn yn ailfywiogi unwaith eto, gan ddarparu cydbwysedd o fasnachu, hamdden a darpariaeth gwasanaeth, a lle o ansawdd i fyw, gweithio ac ymweld.

## 3.3.4 Pwysau ar y system gofal

Mae'r tueddiadau presennol yn y boblogaeth yn dangos y bydd yr angen am wasanaethau iechyd, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol yn cynyddu yng Nghonwy yn y 15-20 mlynedd nesaf. Yn 2015 roedd tua 30,800 o bobl 65 oed ac yn hŷn o fewn y sir. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 40,200 erbyn 2035, sef mwy nag un rhan o dair o boblogaeth y sir (34.8%).

Yn 2015 roedd 4.12% o boblogaeth Sir Conwy yn 85 oed ac yn hŷn (tua 4,700 o bobl) sef dwywaith y ganran ar gyfer Cymru gyfan (2.5%). Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed ac yn hŷn ym mhoblogaeth Sir Conwy yn cynyddu i 9,200 erbyn 2035, sef 8% o'r boblogaeth gyfan.

Mae hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu a thyfu'r farchnad yn y sector iechyd a gofal. Fodd bynnag, mae'r sector hwn yn wynebu heriau mawr. Os na chymerir camau i ddelio â'r rhain, byddant yn rhwystro'r sector rhag elwa o gyfleoedd yn y dyfodol.

Mae'r prif heriau sy'n wynebu'r sector yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau gofal cartref a chartrefi preswyl a nyrsio yn cau | Cyfyngiadau mawr ar gyllidebau | Anallu i recriwtio staff nyrsio, meddygon teulu, staff gofal a staff cymorth |
| Dibyniaeth gynyddol ar staff asiantaeth sy'n uchel eu cost i fusnesau ac yn eu gwneud yn llai cydnerth | Newidiadau mewn deddfwriaeth, e.e. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Galw cynyddol am wasanaethau mewn meysydd fel gofal dementia, ynghyd â phrinder staff medrus sy'n arwain at broblemau o ran ansawdd gofal |

## 3.3.5 Cynaliadwyedd gwledig

Yr her fwyaf i ffermwyr Conwy yw hyfywedd economaidd: diogelu ffermydd teuluol a chynllunio ar gyfer olyniaeth ar ffermydd yn y dyfodol. Y mater allweddol sy'n effeithio ar hyn yw dyfodol ansicr y taliadau



cymorth i ffermydd sy'n cael eu darparu gan Ewrop ar hyn o bryd, sy'n debygol o leihau buddsoddi yn y tymor hir. Mae prinder grantiau hefyd yn her: mae'r cynlluniau presennol yn ddeniadol dim ond i ffermydd mawr sy'n gallu buddsoddi symiau sylweddol. Mae angen datblygu cynlluniau grant llai a fyddai'n helpu i fuddsoddi mewn peiriannau newydd etc. ac arallgyfeirio.

Mae hyfywedd economaidd o dan bwysau oherwydd y cynnydd sydyn yng nghostau ffermwyr: mae tanwydd, porthiant anifeiliaid a gwrtaith yn fewnforion gan mwyaf a'u prisiau'n codi a gostwng ar sail y gyfradd gyfnewid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae pris stoc ar y farchnad wedi gostwng oherwydd pwyso gan archfarchnadoedd am ostwng prisiau bwyd, a chystadleuaeth oddi wrth allforion. Fe all hyn newid wrth i bwysau'r gyfradd gyfnewid beri i fwyd y DU fod yn fwy cystadleuol, ond mae amrywiadau ym mhrisiau stoc a chynnyrch yn ei gwneud yn anodd buddsoddi ar gyfer y tymor hwy.

## 3.3.6 Cyllido

Cafwyd toriadau sylweddol yn y sector cyhoeddus ledled Cymru a'r DU yn sgil y dirywiad economaidd diweddar a'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ym mis Tachwedd 2010. Nid oedd Conwy yn eithriad, ac mae'r Cyngor wedi gorfod dod o hyd i arbedion o £34.5miliwn yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae asiantaethau sy'n bartneriaid i ni hefyd wedi gwneud toriadau ar raddfa debyg. Mae cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi lleihau hefyd ac rydym wedi gweld colli grantiau a mentrau a oedd yn cynorthwyo busnesau lleol mewn meysydd fel sgiliau a chymorth busnes. Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Conwy wedi'i thorri'n sylweddol, ac mae cyllid Ewropeaidd ar gyfer rhaglenni a mentrau lleol wedi lleihau.

Er hynny, rydym wedi gweld buddsoddiadau sylweddol yn y sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn datblygiadau twristiaeth uchel eu proffil fel Surf Snowdonia a Zip World ac wedi darparu cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer adfywio Bae Colwyn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi buddsoddi mewn digwyddiadau sy'n cael effaith fawr ar yr economi yn ogystal â chodi adeiladau newydd ar gyfer swyddfeydd gan ariannu'r gwaith hwnnw drwy resymoli ei ystad a benthyca ar delerau ffafriol. Mae pob un o'r buddsoddiadau hyn yn hybu twf economaidd ac yn dod â manteision i fusnesau o fewn y sir.

Yn dilyn y refferendwm Ewropeaidd ym Mehefin 2016, nid oes dealltwriaeth glir o'r goblygiadau hirdymor i'r economi a chyllido o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Rydym yn gwybod y bydd Conwy yn parhau'n gymwys i ymgeisio am gyllid Ewropeaidd nes bydd y DU yn gadael yr UE ac y gellir parhau i ddatblygu prosiectau newydd. Yn ogystal â hyn, mae prosiectau wedi'u cymeradwyo eisoes a fydd yn cefnogi mentrau economaidd yn y sir fel prosiect Glan y Môr Bae Colwyn ac ad-drefnu Venue Cymru, a fydd yn denu ymwelwyr ychwanegol i'r sir. Bydd gwahanol brosiectau sgiliau a chyflogaeth fel TRAC, ADTRAC ac OPUS yn ymateb i'r her o ymddieithrio oddi wrth addysg a hyfforddiant ymysg pobl ifanc, ac yn helpu'r rheini sy'n ddi-waith ers cyfnod hir ac sydd bellaf o'r farchnad lafur i ddychwelyd i weithio. Gyda'i gilydd, bydd y cynlluniau hyfforddi hyn yn lleihau diweithdra yn y sir. Yn yr ardaloedd gwledig, bydd prosiectau'n cael eu darparu drwy'r fenter LEADER o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a Phrosiect Partneriaeth Tirwedd Rhannu'r Hen Fynydd. Ochr yn ochr â hyn, bydd prosiect arloesol Ynni Adnewyddadwy Cymunedol Dolwyddelan yn mynd i'r afael â thlodi gwledig gan fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau naturiol.

Bydd yn bwysig bod Sir Conwy yn cymryd rhan mewn trafodaethau a negodiadau yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn dylanwadu a phennu polisi rhanbarthol y dyfodol a ffrydiau cyllido cysylltiedig ar ôl Brexit. Parheir i fanteisio ar ffynonellau cyllid allanol ychwanegol pan na fydd cyllid Ewropeaidd ar gael er mwyn gwireddu'r weledigaeth economaidd yn y ddogfen hon.

Ar raddfa fwy, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithio ar gynnig ar gyfer twf gyda thrysorlys y DU, fel y cadarnhawyd yn natganiad hydref y Canghellor yn 2016. Os bydd yn llwyddiannus, gallai arwain at fuddsoddi £1biliwn yn economi Gogledd Cymru, i gynnal prosiectau seilwaith y tu mewn a'r tu allan i'r sir fel gwelliannau i'r A55 a'r rhwydwaith rheilffyrdd. Byddai'r buddsoddiadau strategol hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer twf economaidd Sir Conwy.




Manwerthu - Parc Llandudno



# 4. Themâu trawsbynciol

Oherwydd ei lleoliad canolog yng Ngogledd Cymru lle mae hyder yn yr economi ar gynnydd, mae Sir Conwy mewn lle da i sicrhau twf economaidd. Mae ein hamgylchedd naturiol, treftadaeth gyfoethog, seilwaith trafnidiaeth a gweithlu medrus yn gynhwysion delfrydol ar gyfer llwyddiant economaidd. Wrth ystyried y cyfleoedd ar gyfer economi'r sir, gwelir bod nifer o themâu trawsbynciol a fydd yn creu ac yn hybu twf:

## 1. Cyflogaeth, sgiliau a phrentisiaethau:

Mae tyfu'r economi yn golygu tyfu'r gweithlu o ran galluogrwydd a niferoedd. Mae angen cynyddu'r nifer sy'n gweithio a hybu pob math o weithgarwch economaidd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir. Mae hyn yn golygu sicrhau bod cymunedau'n meddu ar sgiliau ar gyfer gwaith, a bod modd i bobl gael gwybod yn rhwydd am gyfleoedd swyddi lleol. Mae angen cysylltu hyn â'r Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd Rhanbarthol a buddsoddi yn sgiliau'r gweithlu presennol fel y bydd yn gallu ateb y gwahanol alwadau gan fusnesau ac elwa o gyfleoedd newydd. Mae angen manteisio ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu 100,000 o brentisiaethau, gan annog busnesau i gymryd rhan yn y rhaglen brentisiaethau hon, a pharhau â dull "Tîm Conwy" o ymgysylltu a darparu prentisiaethau ledled Conwy, drwy gydweithio â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gydlynu ffrydiau gwaith a rhannu adnoddau er mwyn eu darparu'n effeithiol ac effeithlon. Wrth sicrhau bod rhaglenni hyfforddi rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu darparu yn y sir, mae angen sicrhau hefyd ein bod yn gallu ymateb i anghenion a chyfleoedd sgiliau busnes lleol a phenodol a bod ein rhaglenni adfywio yn cael eu hintegreiddio â mentrau cyflogadwyedd sy'n darparu profiad a chyfleoedd cynaliadwy.

## 2. Seilwaith sy'n galluogi twf:

Er mwyn creu amodau addas ar gyfer twf cynaliadwy, mae angen buddsoddi yn seilwaith busnes y sir. Mae'r sector busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol yng Nghonwy yn ffynnu eisoes. Drwy fuddsoddi mewn safleoedd o'r ansawdd gorau, cryfhau ein seilwaith, lobïo i gael gwell cysylltedd digidol, sicrhau parhad ein gwasanaeth cymorth cryf i fusnesau, a datblygu rhwydweithiau bywiog, bydd Conwy yn gallu adeiladu ar gymunedau busnesau bach a chanolig sy'n ffynnu eisoes, fel y bydd y sir yn denu pobl sydd am sefydlu busnesau dynamig, blaengar ac yn dod yn rhan o 'Goridor Arloesedd Gogledd Cymru'. Bydd yn bwysig bod y busnesau hyn yn gallu dibynnu ar fecanweithiau cymorth busnes o ansawdd da. Bydd yn bosibl i ffocysau busnes Canolfan Fusnes Conwy, Venue Cymru, Glasdir a Pharc Eirias gael eu datblygu ymhellach, gan ddarparu gwasanaethau a dulliau gweithredu newydd, gan gynnwys y posibilrwydd o gael swyddfeydd lloeren i'r dwyrain, i'r gorllewin ac i'r de. Bydd hyn yn bwysig iawn ar gyfer sectorau sy'n wynebu pwysau fel y sector gofal ac o bosibl micro fusnesau unig sydd ymhell o ganol y gweithgarwch. Bydd yn hollbwysig gweithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus gan gydlynu â sefydliadau addysg bellach ac uwch i sicrhau parhad a datblygiad dull 'Tîm Conwy' fel bod gan fusnesau'r sir bwynt cyswllt allweddol a'r hyder y gallant gael mynediad at y cymorth sydd ei angen i elwa o gyfleoedd ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt. Mae pob busnes yn dibynnu ar gysylltedd rhagorol, a gweithio gyda phartneriaethau rhanbarthol, byddwn yn ceisio gwelliannau mewn isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd, capasiti a gwydnwch i gefnogi cynhyrchiant busnes - yn arbennig os yw'r buddsoddiad hwn yn gwella cysylltiadau i feysydd awyr Manceinion a Lerpwl. Yn bwysig hefyd mae gwelliannau mewn cysylltedd digidol a gallu'r busnesau i fabwysiadu a defnyddio'r dechnoleg hynny.

## 3. Gweddnewid twristiaeth:

Mae Gogledd Cymru wedi'i gydnabod yn bedwerydd orau o holl gyrchfannau twristiaeth y byd gan Lonely Planet, ac mae Sir Conwy ar ganol yr arlwy twristiaeth hwnnw. Mae tref Conwy yn enwog drwy'r byd oherwydd ei threftadaeth ragorol ac mae Llandudno wedi'i henwi'n dref lan môr orau'r DU ac yn bedwaredd orau o holl gyrchfannau'r DU gan TripAdvisor. Mae'r sir yn dod yn enwog drwy'r byd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer gweithgareddau antur cyffrous ac mae

Surf Snowdonia, Go Below, a Zip Fforest yn arwain y ffordd. Mae digwyddiadau mawr wedi denu cynulleidfaoedd newydd i'r sir ac wedi cyfrannu'n helaeth i'r economi. Y peth allweddol yn awr yw adeiladu ar sail y llwyddiant hwnnw a gwella ansawdd y swyddi sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ymwelwyr hwn. Mae un o bob pedair swydd yng Nghonwy yn uniongyrchol gysylltiedig â thwristiaeth. Drwy wella ansawdd swyddi ym maes twristiaeth, byddwn yn gwella economi'r sir drwyddi draw. Dylem anelu at adeiladu ar y sylfeini cryf a Phwynt Gwerthu Unigryw o antur a threftadaeth, ac anelu at gynyddu gwerth economaidd twristiaeth yng Nghonwy o £820miliwn i £1biliwn y flwyddyn. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i Gonwy weithredu fel cyrchfan wirioneddol ryngwladol ym mhob agwedd ar brofiad yr ymwelydd drwy'r Sir. Mae angen rheolaeth cyrchfan cynaliadwy ac ymgysylltiad cymunedol ochr yn ochr â buddsoddiadau wedi'u targedu i barhau i wella ein harlwy bwyd a manwerthu, ac i ddatblygu ein heconomi'r nos yn bennaf yng nghanol trefi. Bydd yr un olaf yn tanategu twf pellach yn y farchnad ar gyfer ymwelwyr busnes tra bydd y graidd yn Venue Cymru, bydd yn dod â busnesau i bob un o'n trefi. Mae angen i ni barhau i adeiladu a chryfhau ein harlwy celfyddydol sy'n ategu mentrau eraill, atgyfnerthu 'synnwyr lle' ac sy'n cyfrannu at wariant uwch gan ymwelwyr. Os ydym am drawsnewid cyfran sylweddol o swyddi o fewn y sector twristiaeth, ac felly'r sir, gan gynyddu cyfartaledd cyflogau a phŵer gwario, mae arnom angen creu profiad bywiog ac atyniadol i ymwelwyr yn y gaeaf i wneud Conwy yn gyrchfan drwy'r flwyddyn. Bydd hyn angen buddsoddiad i atyniadau pob tywydd, calendr o ddigwyddiadau ar draws y sir a 'thiwnio' cynnig llety a bwyd dros misoedd y gaeaf.

### 4. Cael mwy o werth am arian yn Sir Conwy:

Po fwyaf o'r arian a gynhyrchir yng Nghonwy sy'n cael ei gadw yng Nghonwy, mwyaf fydd y budd economaidd i'r sir. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth, drwy sicrhau bod ei brosesau caffael yn helpu busnesau Conwy ac yn rhoi gwerth cymdeithasol. Bydd y sector preifat yn chwarae ei ran drwy gadwyni cyflenwi a chreu swyddi. Mae sectorau sy'n cyflogi pobl leol yn bwysig iawn yn y cyd-destun hwn gan eu bod yn cyflogi pobl leol sy'n gwario eu harian yn lleol. Gall Conwy ymgymryd â datblygiadau strategol hefyd i greu gwariant ychwanegol o fewn y sir. Un o'r pethau pwysicaf y gallem ei wneud i dyfu'r economi yng Nghonwy yw denu campws addysg uwch. Mae astudiaethau wedi dangos bod prifysgolion yn cyflawni rôl bwysig yn yr economi leol, gan hybu cyflogaeth a gwariant. Pe byddai Conwy yn denu campws addysg uwch, byddai hyn yn cyfrannu'n helaeth at dwf economaidd yn y sir. Mae prifysgolion yn creu swyddi lleol, yn ysgogi diwylliant mentrus ac yn dod â bywyd newydd i ardaloedd lleol. Mae trefi prifysgol newydd yn gweld newid mewn economïau lleol drwy agor bariau, caffis a bwytai newydd. Yn achos Conwy, byddai hyn yn cyfrannu at economi nos lewyrchus a fyddai hefyd yn hybu'r arlwy twristiaeth gydol y flwyddyn.

### 5. Arweinyddiaeth egnïol:

Er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r strategaeth hon, ac elwa o'r cyfleoedd economaidd ehangach yn y rhanbarth, bydd angen arweinyddiaeth egnïol ym mhob sector. Bydd y sector preifat yn arwain ar fabwysiadu technoleg newydd, gan ehangu ei fusnesau newydd a chreu cynigion newydd o fewn y farchnad. Bydd y sector preifat yn flaengar a dynamig wrth greu'r amodau sydd eu hangen i fusnesau ffynnu a hefyd yn parhau i ddarparu cymorth i fusnesau newydd a busnesau sy'n ehangu. A bydd y trydydd sector yn datblygu ffyrdd newydd o sicrhau allbynnau economaidd wrth ddelio â'r heriau o fewn ein cymunedau. Yn sail i'r arweinyddiaeth a chydweithio hwn, sefydlir Bwrdd Twf Economaidd newydd i Sir Conwy. Yn yr un modd â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, bydd y Bwrdd ar gyfer Conwy, lle mae ei aelodau wedi bod yn rhan o sefydlu'r strategaeth hon, yn arwain a chefnogi rhanddeiliaid penodol, i gyflawni'r rhaglen o brosiectau a gweithgareddau wedi seilio ar chwech thema a chyflawni'r 5 uchelgais. Yn allweddol i hyn yn y tymor byr fydd sicrhau bod anghenion economi Conwy yn cael eu cydnabod a'u darparu yn y polisi adfywiad/economaidd rhanbarthol yn y dyfodol ynghyd â rhaglenni a chynigion ariannol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.



### 6. Dull hyderus, allblyg o weithredu:

O'n lleoliad canolog manteisiol, bydd angen i bawb sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn Sir Conwy edrych tuag allan i elwa o'r cyfleoedd tua'r dwyrain a'r gorllewin. Bydd partneriaethau â Chynghrair Mersi Dyfrdwy a Phartneriaeth Fenter Leol Swydd Gaer a Warrington yn bwysig ar gyfer twf yn y sir. Mae cysylltiadau trafnidiaeth rhagorol Sir Conwy yn fantais wirioneddol. Mae'n bwysig ein bod yn hyrwyddo cysylltiadau da ar ffyrdd a rheilffyrdd, agosrwydd meysydd awyr a'r pellter cyfleus ar gyfer cymudo i Iwerddon, Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r rhain, ynghyd â'r amgylchedd naturiol, yn cynnig ansawdd bywyd rhagorol i gyflogeion, gweithlu medrus a sefydliadau addysgol da ar gyfer pob oed. Mae tuedd gynyddol i'r 'Mileniaid' chwilio am gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Gall Conwy ddenu arweinwyr busnes o'r grŵp demograffig hwn i adleoli neu ehangu eu busnesau yn y sir.

# 5. Uchelgeisiau economaidd

Bydd twf economaidd yn digwydd drwy wneud y pethau mawr a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae profiad diweddar yn dangos bod buddsoddiadau strategol pwrpasol yn creu catalyddion ar gyfer twf economaidd. Mae datblygiadau a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru fel Zip World, Canolfan Fwyd Bodnant a Surf Snowdonia yn trawsnewid economi Dyffryn Conwy. Roedd yr astudiaeth o effaith economaidd Zip World yn 2016 yn dangos bod y cwmni hwn ar ei ben ei hun wedi cynhyrchu £120miliwn ar gyfer yr economi leol ac wedi creu mwy na 200 o swyddi newydd.

Felly nod y strategaeth hon ar gyfer twf yw adeiladu ar sail y themâu trawsbynciol sydd wedi'u disgrifio uchod a phennu'r mentrau strategol a all gyfrannu fwyaf i economi Conwy. Bydd y rhain yn galw am gydweithio agos rhwng y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac am ffyrdd newydd o weithio. Byddant yn galw am fuddsoddi gan sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Ac yn bwysicaf oll, byddant yn galw am weledigaeth, dychymyg ac uchelgais.

Y pum uchelgais ar gyfer tyfu economi Sir Conwy yw:

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| Creu safleoedd busnes o'r radd flaenaf i gynnal twf a denu busnesau newydd | Cymryd camau i ddenu prif swyddfeydd/ canolfannau rhyngwladol i'r sir | Sefydlu presenoldeb addysg uwch yn y sir | Datblygu economi'r nos ac arlwy i ymwelwyr yn ystod y gaeaf ar draws Sir Conwy gan ei gwneud yn gyrchfan i ymwelwyr drwy'r flwyddyn | Hwyluso'r morlyn ynni'r llanw a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill ar draws y sir |

## 5.1 Safleoedd busnes o'r radd flaenaf

Mae banciau yng Ngogledd Cymru wedi nodi'r duedd gynyddol i bobl symud i Sir Conwy i ddechrau busnesau. Byddai creu safleoedd o ansawdd uchel ar gyfer swyddfeydd yng nghanol trefi yn hybu ac yn cyflymu'r duedd hon, yn cefnogi a twf y sectorau digidol a chreadigol ac yn cynorthwyo rhaglenni adfywio mewn ardaloedd tebyg i Fae Colwyn, gan weithredu fel catalydd ar gyfer datblygiadau pellach yn y seilwaith a buddsoddiadau sector preifat. Er enghraifft, gellid creu canolfan fenter ac arloesi ar gyfer busnesau newydd yn ardal Douglas Road ym Mae Colwyn. Gallai hyn gael ei ailadrodd, ehangu, addasu a gwella eiddo cyfredol i greu rhwydwaith ar draws y sir i ddarparu canolfannau ardal gyda llety, mynediad at dechnoleg a chymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig, mentrau cymdeithasol a busnesau newydd.




Cynhyrchu Bwyd - Edwards of Conwy

Yn ogystal â hyn, mae angen safleoedd newydd ar fusnesau sefydledig er mwyn tyfu. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r sector breifat i ddod â thir cyflogaeth a ddyrennir ar draws y sir ac hefyd sicrhau bod adnewyddu/moderneiddio eiddo cyflogaeth presennol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer gofynion y diwrnod modern. Bydd hyn yn cynnwys adnabod datrysiadau arloesol i ddod o hyd i ddefnydd cynaliadwy i eiddo gwag canol tref, ac hefyd yn creu mannau gweithdy gwledig.

Mae safleoedd y Cyngor ym Morfa Conwy a De-ddwyrain Abergele wedi'u cydnabod yn safleoedd strategol â blaenoriaeth ar gyfer datblygu yn strategaeth seilwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gellid datblygu'r safleoedd hyn, sydd mor agos i'r A55, i ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer y sector cynhyrchu bwyd a sector gwyddorau'r ddaear sydd yn ffynnu yn y sir. Dylem hefyd archwilio potensial y coridor hwn fel lleoliad canolfan ddosbarthu, yn benodol gyda'r farchnad Wyddelig mewn golwg wedi i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.

## 5.2 Denu prif swyddfeydd

Mae Sir Conwy yn cynnig gweithlu medrus, cadwyn gyflenwi broffesiynol ac ansawdd bywyd rhagorol. Y rhain, ynghyd â chysylltiadau cryf o ran ffyrdd, rheilffyrdd a TGCh, yw'r prif elfennau a fydd yn denu swyddogaethau prif swyddfa i'r sir gan ddod â buddion o lawer math i Gonwy: byddai ffigurau gwerth ychwanegol gros yn codi, byddai staff mwy medrus â chyflogau uwch yn hybu gwariant lleol, a byddai busnesau'n elwa o gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi. Mae busnesau prif swyddfa o ansawdd da hefyd yn gallu helpu i feithrin cysylltiadau agos ag addysg uwch a chyfleoedd i raddedigion, gan gadw talentau ifanc yn y sir. Mae Conwy yn dioddef o allfudo gan dalentau iau sy'n chwilio am eu swyddi cyntaf fel graddedigion. Drwy sefydlu prif swyddfeydd yn y sir, byddai cyfleoedd o'r fath ar gael iddynt a byddai llai o dalentau'n gadael y sir.

> *"Because of the nature of the headquarters function, headquarters typically employ highly-skilled and well-compensated professionals. Headquarters also purchase high-end professional services, notably auditing, management consulting and financial services, as they pursue their corporate mandate. Individuals in these high-end professional services roles are highly coveted by governments as high-end tax payers and consumers within the localities where they work. Their positive economic impact is compounded by the fact that a variety of services jobs are seen to grow up around them thereby generating significant indirect economic benefits to the localities in which they work. As an added benefit, high-end professionals are also seen as being individuals who are likely to invest substantial time and resources in community development, philanthropy and good works."*
>
> ***Valuing Headquarters (HQs), Analysis of the Role, Value and Benefit, Global Value Chains, Dr. Michael Bloom, Michael Grant***

## 5.3 Presenoldeb addysg uwch

Mae dwy brifysgol yn gwasanaethu rhanbarth Gogledd Cymru: Prifysgol Bangor tua'r gorllewin a Phrifysgol Glyndŵr tua'r dwyrain. Mae Prifysgol Caer yn llai nag awr i ffwrdd mewn car o Sir Conwy ac yn cynnig cysylltiad â Chynghrair Mersi Dyfrdwy a Phwerdy Gogledd Lloegr. Mae cysylltiadau agos rhwng Coleg Llandrillo a Phrifysgol Bangor. Ar ei gampws yn Llandrillo yn Rhos, sydd ar gyfer addysg bellach yn bennaf, mae'n cynnig dewis o gyrsiau gradd i fyfyrwyr lleol. Fodd bynnag, nid oes cyfadran/campws Prifysgol neilltuol i Gonwy a allai ddenu myfyrwyr o'r tu allan i'r sir ac o wledydd tramor i fyw yn yr ardal a chreu galw am economi gyda'r hwyr. Mae'r sir hefyd yn gweld diffyg cysylltiadau rhwng addysg uwch a'r gymuned fusnes fel a geir mewn trefi a siroedd lle mae prifysgol. Mae tystiolaeth glir a helaeth bod perthynas agosach rhwng addysg uwch a busnes yn hybu twf ac arloesi yn yr economi leol. Byddai darpariaeth neilltuol yng Nghonwy yn cynnig cyfleoedd newydd a thwf economaidd.

Gallai campws o'r fath gynnig amrywiaeth o bynciau a fyddai'n berthnasol i economi'r rhanbarth ac yn cwrdd ag anghenion lleol. Byddai ffocws ar feddygaeth yn gallu delio ag un o'r heriau mwyaf y mae'r rhanbarth yn ei hwynebu: diffyg staff hyfforddedig ar bob lefel i gwrdd ag anghenion iechyd y rhanbarth. Byddai cyrsiau twristiaeth ar lefel addysg uwch yn cyfrannu at wireddu dyhead y sir am fod yn gyrchfan



Ynni Adnewyddadwy - Newbridge Engineering



o'r radd flaenaf i ymwelwyr ym mhob maes. Mae'r ddarpariaeth addysg uwch yng ngwyddorau'r ddaear yn annigonol ledled y DU, fel bod cwmnïau yng Nghonwy fel CGG Robertson yn gorfod recriwtio yn Ewrop i ddenu staff medrus. Drwy ddarparu cyrsiau gradd yn y meysydd pwnc arbenigol hyn, byddai cyfleoedd swyddi o'r fath ar gael i bobl yng Ngogledd Cymru, a byddai statws y rhanbarth fel un o'r tair canolfan ar gyfer gwyddorau'r ddaear yn y DU yn cael ei gadarnhau.

## 5.4 Creu economi nos ac arlwy i ymwelwyr yn y gaeaf

Mae economi nos ac arlwy deniadol i ymwelwyr yn y gaeaf yn hanfodol i sefydlu Sir Conwy yn gyrchfan i ymwelwyr gydol y flwyddyn. Mae Venue Cymru yn denu amrywiaeth fawr o gynadleddau a chyfarfodydd busnes drwy gydol y flwyddyn. Er mwyn tyfu'r farchnad hon, a sicrhau bod cynifer â phosibl o'r ymwelwyr hyn yn aros dros nos, mae angen cynnig mwy o bethau i'w gwneud yn y nos yn Llandudno i ymwelwyr, yn cynnwys mwy o leoedd bwyta. Ar ben hyn, mae data STEAM[1] yn dangos bod nifer yr ymwelwyr yn gostwng yn sylweddol ledled y Sir rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror. Nid yw hyn yn golygu nad yw pobl yn mynd ar wyliau yn ystod misoedd y gaeaf, dim ond eu bod yn dewis mynd i leoedd eraill. Tra mai Llandudno yw'r brif gyrchfan o fewn y sir, mae'n rhaid i raglenni buddsoddi cael eu lledaenu ar draws y sir i sicrhau profiad cyson i ymwelwyr. Yn bwysig i ddenu mwy o ymwelwyr yn ystod y misoedd hyn bydd rhaglenni i fuddsoddi mewn digwyddiadau i ddenu ymwelwyr ar draws y sir yn y cyfnod hwn yn y flwyddyn a datblygu/buddsoddi mewn atyniadau i'w mwynhau drwy'r gaeaf. Byddai hyn yn annog mwy o lety i fod ar gael ar yr adeg hon gan gyfrannu at wireddu'r uchelgais cyffredinol i gynhyrchu £1biliwn y flwyddyn o dwristiaeth a chreu'r amgylchedd sydd ei angen ar gyfer swyddi amser llawn o ansawdd da.

## 5.5 Morlyn ynni'r llanw ac ynni adnewyddadwy

Mae ynni yn sector twf sylweddol yn y rhanbarth. Er bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ffocysu yn bennaf ar Wylfa Newydd ac Orthios byddai'r morlyn ynni'r llanw arfaethedig ym Mae Colwyn yn brosiect adeiladu rhanbarthol o bwys. Pe byddai'n cael ei amserlennu i ddilyn adeiladu Wylfa Newydd, gallai helpu i ddiogelu swyddi adeiladu newydd a phresennol am ugain mlynedd a mwy. Ar ôl ei gwblhau, byddai'n cyfrannu at amddiffyn rhag y môr, gan leihau'r risg i'r economi o lifogydd. Byddai hefyd yn gallu cynnig amwynder newydd i breswylwyr ac ymwelwyr, yn cynnwys man hamdden dŵr cysgodol, trac beicio newydd yn y bae a chanolfan i ymwelwyr.

Yn y cyfnod byr a chyfnod canolig mae llawer y gall y Cyngor a'i bartneriaid ei wneud i sicrhau nad yw cymuned busnes y sir yn methu allan ar y cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau megis Wylfa Newydd a Chlocaenog. Hefyd, mae cyfleoedd a all godi o gynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach o fewn y sir e.e. Hydro Dolwyddelan, neu annog ffermydd solar i gynorthwyo arallgyfeirio. Mae'r rhain yn darparu buddion economaidd a chymunedol a dylid eu hannog. Yn debyg byddai mentrau megis datblygu rhwydwaith o bwyntiau cyswllt trydan ar draws y sir i leihau ôl-troed carbon angen eu cefnogi. Bydd y rhain gyda'i gilydd yn helpu i adeiladu lefel arbenigedd o fewn y sir a'i gyfraniad at sector twf sylweddol yn y rhanbarth.

# 6. Cyflawni'r strategaeth

Cyflawnir y strategaeth dros gyfnod o ddeng mlynedd a bydd yn cael ei hadolygu nifer o weithiau yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n bwysig nodi y bydd hyn yn digwydd yr un pryd ag adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017, ac yn rhoi'r gallu i gysoni'r ddwy ddogfen. Datblygir cynllun gweithredu, wedi'i arwain gan y Bwrdd Twf Economaidd Conwy i roi'r strategaeth ar waith gyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyflenwi a chydlynu'r prosiect. Mae cynnig ar gyfer aelodaeth y Bwrdd hwn yn *Atodiad 2*.

1 - Proses o fodelu effaith economaidd twristiaeth yw STEAM (Scarborough Tourism Economic Activity Monitor) sy'n edrych ar fesuriadau twristiaeth o'r gwaelod i fyny drwy ddefnyddio gwybodaeth leol ar yr ochr gyflenwi a chasglu data perfformiad twristiaeth ac arolygon ymwelwyr.

Adolygir y strategaeth ar sail y cerrig milltir yn y cynllun gweithredu. Bydd hefyd yn angenrheidiol i sicrhau aliniad clir o'r strategaeth hon a chynllun gweithredu a pholisïau a chynlluniau eraill ar gyfer Sir Conwy fel y Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy, y Strategaeth Digwyddiadau Gorfforaethol, y Strategaeth Celfyddydau Gorfforaethol, a'r Cynllun Strategaeth Tai. Bydd hefyd yn bwysig bod y prosiectau a gweithgareddau yn y cynllun gweithredu yn cefnogi'r amcanion ehangach y Cynllun Corfforaethol Conwy a datganiad Lles Conwy. Yn annatod i hyn i sicrhau ein bod yn dilyn y pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Meddwl yn yr hirdymor
- Dull integredig
- Ymgysylltiad
- Cydweithio
- Gweithredu ataliol

Bydd y strategaeth a'i chynllun gweithredu yn dibynnu am eu llwyddiant ar gydweithio rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyflawni'r nodau rydym wedi'u gosod. Bydd yn galw am ddealltwriaeth glir o rolau yn ogystal ag ymrwymiad o ran adnoddau a gweithio mewn partneriaeth.

***Rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:***
- Gweithredu fel catalydd a hyrwyddo'r camau gweithredu sydd eu hangen, gan gydlynu ei dimau busnes ac adfywio i wireddu uchelgeisiau economaidd y strategaeth hon
- Mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ychwanegu gwerth a sicrhau arloesi
- Mynd ati i bennu partneriaid/busnesau newydd a fydd yn gallu cyfrannu at gyflawni'r strategaeth
- Adolygu ei brosesau caffael a pholisi cynllunio i hyrwyddo'r strategaeth gan ddefnyddio a datblygu tir ac asedau mewn ffordd uchelgeisiol
- Darparu cymorth busnes i fusnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol o bob math yn y sir i alluogi'r holl fusnesau i fanteisio ar dwf economaidd
- Defnyddio ystadau'r Cyngor mewn ffordd ragweithiol a dyfeisgar i greu cyfleoedd ar gyfer seilwaith
- Hysbysu dysgwyr yng Nghonwy am y cyfleoedd cyflogaeth a fydd ar gael iddynt yn y dyfodol, yn lleol ac yn rhanbarthol, a'u galluogi i fanteisio arnynt, er mwyn lleihau allfudo

***Rôl Llywodraeth Cymru:***
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Chonwy gan gydnabod cryfderau economi'r sir a darparu cefnogaeth ac adnoddau i gynorthwyo darparu yn erbyn themâu ac uchelgeisiau'r strategaeth hon
- Gweithio ar y cyd ar draws pob llinyn o'r strategaeth ond yn benodol i gynorthwyo gyda gwireddu'r uchelgeisiau ar gyfer isadeiledd
- Cynorthwyo gyda nodi partneriaid a buddsoddwyr newydd a all gyfrannu at uchelgeisiau twf economaidd Conwy
- Lobïo a dylanwadu ar gyfer adnoddau a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod uchelgeisiau economi Conwy yn cael eu cydnabod mewn polisïau datblygu rhanbarthol yn y dyfodol

***Rôl y sector cyhoeddus ehangach:***
- Cynorthwyo a darparu adnoddau, ymrwymiad, syniadau ac arbenigedd
- Cydweithio i gysoni polisïau a chynlluniau
- Cydweithio i gysoni cynlluniau ar gyfer caffael a thir ac adeiladau
- Lobïo a dylanwadu er mwyn cael cefnogaeth wleidyddol ac adnoddau

***Rôl y sector preifat:***
- Pennu a datblygu cynigion busnes a fydd yn cyflawni themâu ac uchelgeisiau'r strategaeth hon
- Darparu buddsoddiadau ariannol a pharu adnoddau â rhai'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector
- Cydweithio ar holl feysydd y strategaeth ac yn enwedig ar yr uchelgeisiau ar gyfer datblygu tir ac eiddo
- Helpu i bennu partneriaid a rhanddeiliaid newydd sy'n gallu cyfrannu at gyflawni uchelgeisiau Conwy ar gyfer twf economaidd



***Rôl y trydydd sector:***
- Darparu mecanweithiau amgen i gyflawni camau gweithredu a chanlyniadau
- Herio'r norm
- Cael gafael ar gyllid a darparu adnoddau ac arbenigedd
- Cydweithio â phartneriaid i gyflawni'r nodau economaidd hyn

# 7. Dangosyddion

Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn cael ei fesur ar sail targedau syml ar gyfer twf economaidd Conwy:

| | | | |
|---|---|---|---|
| £1biliwn o werth economaidd o dwristiaeth i'r sir | 3,500 o swyddi ar gyflogres o fewn y sir | Cynnydd yng nghyfran y swyddi amser llawn o 59% i 70% | Cynyddu'r cyflog cyfartalog i 95% o gyfartaledd y DU |

Yn ogystal â'r targedau economaidd allweddol hyn, bydd set o ddangosyddion i fesur iechyd yr economi leol a darparu gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau yn y dyfodol:

- Cyfanswm yr arwynebedd llawr a ddatblygwyd
- Demograffeg busnesau
- Cyfanswm cyflogaeth
- Cyflogaeth ar sail galwedigaeth
- Lefelau hawlio budd-daliadau
- Rhai 16-19 blwydd oed sy'n NEET (Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant)
- Hyder busnes
- Prentisiaethau
- Twf mewn swyddi ar sail sector
- Cyfrif poblogaeth
- Cyfradd cyflogaeth
- Cyfradd diweithdra
- Rhai economaidd weithgar
- Rhai economaidd anweithgar
- Cyfradd hunangyflogaeth
- Prif swyddfeydd/swyddfeydd rhyngwladol yn y sir
- Busnesau newydd sbon yn goroesi i'w trydedd flwyddyn
- Buddsoddiadau a sbardunwyd
- Ffigurau twristiaeth STEAM

Bydd Tabl Rhesymeg yn ategu'r dangosyddion hyn a'r Cynllun Gweithredu ac yn dangos y cysylltiad rhwng mewnbynnau, gweithgarwch o ran adnoddau, allbynnau ac effaith. Bydd hyn o gymorth i fonitro llwyddiant y strategaeth yn ogystal ag iechyd cyffredinol yr economi.



Safleoedd ac Eiddo - CoOrdinated Surveys

# 8. Casgliad

Mae Conwy wedi cael nifer o lwyddiannau economaidd nodedig dros y blynyddoedd diwethaf, yn amrywio o dwf ei sector twristiaeth i adfywio Bae Colwyn; o'i datblygu'n ganolfan gwyddorau'r ddaear i adfywiad ei harlwy manwerthu.

Ar sail cryfderau unigryw'r sir, a'r weledigaeth yn y strategaeth hon, gall economi Conwy barhau i dyfu, gan gyflawni ein huchelgais i ennill £1biliwn o dwristiaeth, sicrhau 3,500 o swyddi ychwanegol yn y sir a chynyddu cyfran y swyddi amser llawn i 70%. Yr allwedd i hyn yw defnyddio ein hasedau a'n cryfderau i ddelio â'r bygythiadau a'r heriau sy'n ein hwynebu.

Drwy ddelio â'r bwlch ym maes addysg uwch a denu campws prifysgol i'r sir, byddai effaith sylweddol ar yr economi leol gyfan. Drwy fanteisio ar gryfderau Conwy i ddenu prif swyddfeydd i'r sir, byddai swyddi medrus newydd a mwy o wariant lleol. Drwy ddatblygu ein harlwy gwych i ymwelwyr, a manteisio ar y llwyddiant hwn i greu arlwy gydol y flwyddyn, byddai effaith sylweddol hefyd ar yr economi leol, a fyddai'n gwella ansawdd swyddi a'u gwneud yn fwy diogel.

Bydd adeilad swyddfeydd newydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol ym Mae Colwyn yn gallu bod yn gatalydd ar gyfer rhagor o ddatblygiadau swyddfeydd, gan droi Conwy yn ganolfan lewyrchus ar gyfer busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol, a thrwy ddatblygu safleoedd strategol gellir darparu'r safleoedd sydd eu hangen ar fusnesau presennol sydd am ehangu.

Mae amaethyddiaeth yn hanfodol i economi Conwy ac mae'n bwysig bod y sector yn cael ei gefnogi a'i hyrwyddo. Mae'r prosiectau strategol ehangach yng Ngogledd Cymru fel Wylfa Newydd yn cynnig cyfleoedd pwysig i'r sector hwn ac mae angen mabwysiadu dull partneriaeth i sicrhau bod busnesau gwledig Conwy yn elwa o'r datblygiadau hyn drwy'r gadwyn gyflenwi.

Yr allwedd i'r holl ddatblygiadau hyn yw hyder a gweithio mewn partneriaeth. Mae gan Gonwy yr holl asedau sydd eu hangen i dyfu ei heconomi a'i gwneud yn fwy nag y bu erioed. Drwy arweinyddiaeth egnïol ar draws sectorau a dull allblyg o weithredu, gallwn sicrhau economi a fydd yn darparu swyddi o ansawdd da yn awr ac ymhell i'r dyfodol.

# Atodiad 1: Dadansoddiad SWOT o economi Sir Conwy

Rydym wedi ystyried y data economaidd ar gyfer Conwy a thueddiadau cyffredinol ledled Gogledd Cymru wrth edrych ar dwf yn y dyfodol. Rydym wedi ymgynghori â Phartneriaeth Economaidd y Sir, sy'n cynrychioli buddiannau busnes, ac ar sail yr ymchwil hon gallwn nodi nifer o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau.

## Cryfderau

**Lleoliad a chysylltedd:** Mae'r sir yng nghanol Gogledd Cymru ac yn cael ei gwasanaethu'n dda gan ffyrdd a rheilffyrdd. Mae o fewn 1 awr o daith i 4 maes awyr lleol, rhanbarthol a rhyngwladol, yn ogystal â phorthladd llongau fferi pwysig. Mae cysylltedd da yn y sir ar gyfer dyfeisiau symudol a band eang

**Yr amgylchedd naturiol:** Mae amgylchedd naturiol Conwy ymhlith y rhai mwyaf prydferth, ac mae bron dwy ran o bump o'r Fwrdeistref Sirol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae golygfeydd rhagorol o'r arfordir a chefn gwlad yn y sir

**Arlwy i ymwelwyr:** Mae'r sir yn enwog drwy'r byd ym maes twristiaeth. Ei meysydd cryf yw ardaloedd treftadaeth, a Chastell Conwy yn safle Treftadaeth y Byd, a gweithgareddau antur awyr agored - Cafodd Gogledd Cymru ei enwi'n ddiweddar yn bedwerydd orau o holl ranbarthau'r byd am weithgareddau awyr agored. Mae ei hamgylchedd naturiol a'i hatyniadau yn cadw Conwy yn llygad y byd o ran gweithgareddau antur. Mae trefi allweddol fel Llandudno, y dref lan môr orau yn y DU a'r gyrchfan bedwaredd orau, yn adnabyddus drwy'r byd

**Canolfan digwyddiadau ac atyniadau:** Mae gan Sir Conwy enw heb ei ail ledled Cymru a thu hwnt fel canolfan ragoriaeth ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, busnes a diwylliannol cenedlaethol a rhyngwladol

**Sylfaen sectoraidd eang:** Mae tua 6,000 o fusnesau yng Nghonwy, y mwyafrif ohonynt yn fusnesau micro ac, er bod y rhan fwyaf o'r busnesau a swyddi cyflogres o fewn y sector gwasanaethau, mae amrywiaeth fawr o sectorau yn gweithredu yn y sir, yn amrywio o olew a nwy, niwclear, gweithgynhyrchu a pheirianneg i ofal iechyd, manwerthu, harddwch a thwristiaeth

**Sector addysg bellach cryf:** Mae campws Coleg Llandrillo yn Llandrillo yn Rhos yn Sir Conwy. Mae'n cynnig amrywiaeth fawr o weithgareddau ac yn sicrhau canlyniadau rhagorol. Mae cyfleuster prifysgol yn gysylltiedig â Phrifysgol Bangor ar y campws hwn hefyd

**Sylfaen amaethyddol dda:** Mae sylfaen amaethyddol fawr yn y sir a'r sector amaethyddol sy'n cynnwys y nifer mwyaf o fusnesau o'r holl sectorau yng Nghonwy

**Canolfan gwyddorau'r ddaear:** Mae Conwy yn gartref i CGG Robertson, cwmni rhyngwladol sy'n arwain ym maes chwilio am olew a nwy, yn ogystal â nifer o fusnesau clwstwr, fel mai Conwy yw'r ardal drydedd bwysicaf ar gyfer olew a nwy yn y DU

**Treftadaeth a diwylliant cryf:** Mae gan Gonwy dreftadaeth a diwylliant Cymreig ffyniannus ac mae hyn, ynghyd â'n hamgueddfeydd, theatrau ac orielau celf, yn rhoi llais cryf i Gonwy yng Ngogledd Cymru

**Sir 'ffordd o fyw':** Mae gan Gonwy yr enw o fod yn sir 'ffordd o fyw', ac mae hyn yn gysylltiedig â nifer y bobl hŷn sy'n ymfudo i'r sir i fyw

**Arlwy bwyd a diod: cynhyrchwyr, manwerthu a lletygarwch**: Mae Conwy yn gryf iawn o ran amrywiaeth ac ansawdd ei bwyd a diod, o'r pridd i'r plât



## Gwendidau

**Argaeledd tir/parciau busnes:** Nid oes banc sylweddol o dir nac eiddo a fyddai'n creu cyfleoedd cyflogaeth ar gael o fewn y sir, mewn perchnogaeth gyhoeddus na phreifat

**Prinder busnesau mawr a gweithgynhyrchu yn gyffredinol:** Nid oes busnesau mawr yn y sir y tu allan i'r sector cyhoeddus. Mae 5 busnes sydd â gweithlu o fwy na 250. Mae cwmnïau gweithgynhyrchu sy'n chwilio am safle yn fwy tebygol o ddewis gogledd-ddwyrain Cymru oherwydd ei gysylltiadau trafnidiaeth ac am ei fod yn agos i gadwyn gyflenwi a chlwstwr mawr

**Cysylltedd dyfeisiau symudol/band eang/ trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig:** Mae trafnidiaeth a chysylltedd yn fwy problemus yn ein broydd gwledig. Mae'r buddsoddi yn y ddau yn is nag mewn ardaloedd trefol

**Dibyniaeth ar y sector cyhoeddus:** Mae sylfaen sector cyhoeddus fawr yng Nghonwy, sy'n creu risgiau mewn cyfnodau o gyni

**Ardaloedd menter: diffyg a chystadleuaeth:** Gan fod ardaloedd menter yn nwyrain a gorllewin Gogledd Cymru, mae Conwy yn wynebu cystadleuaeth fawr wrth geisio denu mewnfuddsoddiadau i'r sir

**Diffyg cyfatebiaeth sgiliau:** Mae cymuned fedrus yng Nghonwy sydd â sgiliau lefel uwch sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod y boblogaeth yn heneiddio a phobl ifanc yn allfudo, nid yw sylfaen sgiliau'r sir yn cyfateb i anghenion busnesau

**Anghenion amaethyddol:** Mae'r sector hwn yn un mawr a phwysig yng Nghonwy, ond mae'n wynebu pwysau mawr o ran cynaliadwyedd ffermydd, costau cynyddol, gostyngiadau mewn grantiau a phrisiau stoc sy'n codi a gostwng

**Delwedd wan Sir Conwy:** Y gwir yw bod Sir Conwy yn rhagori ar y disgwyliadau o ran ei pherfformiad economaidd ond nid yw'r neges hon yn cael ei chyfleu i fusnesau y tu allan i'r sir bob amser

**Cymorth i fusnes gan addysg uwch a'r gymuned addysg uwch:** Nid oes presenoldeb addysg uwch yn y sir sy'n ymwneud â busnes. Gall prifysgolion gynnig cymorth sylweddol i fusnesau ac mae hyn yn wendid mawr yn y sir

**Economi'r nos:** Gan fod 22,000 o leoedd gwelyau yn Llandudno yn unig, mae gennym farchnad ar gyfer arlwy gyda'r nos a fyddai'n ategu'r arlwy theatr a bwyd

**Sector iechyd a gofal cymdeithasol:** Mae'r sector hwn o dan bwysau o sawl cyfeiriad, fel y mae mewn siroedd eraill. Mae cartrefi gofal preswyl yn cau oherwydd problemau o ran cynaliadwyedd; mae'r gallu i recriwtio a chadw staff yn bryder mawr. Mae ein poblogaeth o feddygon teulu yn hŷn na'r cyfartaledd ac mae pryder mawr ynghylch y gallu i recriwtio i'r swyddi hynny yn y dyfodol

## Cyfleoedd

**A55:** Mae'r A55 yn rhedeg ar hyd ein harfordir ac yn cynnig cyfleoedd mawr i'r sir, o ran hwylustod teithio i'r gwaith, ymwelwyr a llwybrau i'r farchnad

**Presenoldeb addysg uwch:** Mae tystiolaeth yn dangos bod ardaloedd sydd â chysylltiadau cryfach ag addysg uwch yn tyfu'n fwy yn economaidd nag ardaloedd lle na ellir derbyn addysg uwch. Felly mae'r bwlch hwn yn y farchnad yn gyfle gwych i ddatblygu cysylltiadau a strwythurau yn y sir

**Band eang cyflym iawn:** Mae'r rhaglen i ddarparu band eang yn cynnig cyfle i fusnesau eangu marchnadoedd a lleihau costau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig

**Gweddnewid twristiaeth (swyddi tymhorol/ swyddi amser llawn):** Gan fod gennym arlwy rhagorol i ymwelwyr, mae gennym nifer mawr o swyddi tymhorol. Drwy ddatblygu'r arlwy hwn, cawn gyfle i newid swyddi rhan-amser/tymhorol yn swyddi amser llawn

**Elwa o'r amgylchedd naturiol:** Mae ein hamgylchedd naturiol rhyfeddol yn cynnig cyfleoedd mawr i ddenu ymwelwyr a chyfoeth economaidd i'r sir heb greu effaith negyddol

**Cysylltu â chyfleoedd tua'r dwyrain a'r gorllewin:** Gan fod prosiectau cyfalaf trawsnewidiol mawr yn digwydd i'r dwyrain a'r

gorllewin o Gonwy, ceir cyfleoedd gwych i'n busnesau a'n preswylwyr gan ein bod o fewn pellter cymudo rhwydd

**Arallgyfeirio ar ffermydd**: Mae cyfleoedd ar gael i edrych ar yr arferion gorau mewn amaethyddiaeth ledled y byd a darparu modelau busnes, cynhyrchion a gwasanaethau newydd yng Nghonwy

**Ynni adnewyddadwy ac ynni'r llanw:** Mae Conwy mewn lle da i ddatblygu'r sector hwn drwy elwa o'n hasedau naturiol er mwyn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer twf economaidd

**Datblygu'r Strategaeth Digwyddiadau:** Mae ein harbenigedd o ran rheoli digwyddiadau ac asedau fel Parc Eirias a Venue Cymru yn rhoi Conwy mewn lle da i greu rhagor o gyfleoedd

**Prosesau caffael:** Mae gallu'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddatblygu prosesau caffael sy'n hybu'r economi leol yn gallu creu cyfleoedd lleol gwych

**Agosrwydd i Ogledd-orllewin Lloegr:** Cysylltiadau â chytrefi mawr fel Manceinion, Lerpwl a Stoke-on-Trent

**Arlwy bwyd a diod:** Mae Conwy yn gryf iawn o ran amrywiaeth ac ansawdd ei harlwy bwyd a diod, o'r pridd i'r plât

**Cais Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:** bydd y cynnig i gyflwyno cais i Drysorlys EM am gymorth i ariannu seilwaith strategol ar draws Gogledd Cymru, os yn llwyddiannus, yn cefnogi twf economi Conwy

## Bygythiadau

**Ardaloedd menter tua'r dwyrain a'r gorllewin:** Mae'r rhain yn cystadlu'n gryf wrth i ni geisio denu mewnfuddsoddiadau i'r sir

**Yr ynys ynni tua'r gorllewin a gweithgynhyrchu tua'r dwyrain:** Byddai'r prosiectau trawsnewidiol mawr i'r dwyrain a'r gorllewin o Gonwy yn gallu tynnu llafur medrus a phrofiadol o'r sir, ac mae'n bosibl na fyddant yn creu unrhyw fuddion i'r sir

**Poblogaeth sy'n heneiddio:** Mae poblogaeth Conwy yn hŷn na'r cyfartaledd. Gall hyn gael effaith ar nifer o lefelau: gall ddihysbyddu adnoddau, yn enwedig ym maes gofal iechyd; gall waethygu'r diffyg cyfatebiaeth o ran sgiliau; a gall gymell talentau iau i beidio ag aros yn y sir

**Allfudo gan bobl ifanc:** Mae allfudo gan ein talentau ifanc yn peri pryder gan eu bod yn chwilio am gyflogaeth a hyfforddiant yng nghytrefi mwyaf y DU

**Toriadau ar wariant cyhoeddus a'u heffaith leol:** Mae toriadau parhaus ar wariant y sector cyhoeddus yn cael effaith drwy leihau buddsoddiadau a gwasanaethau yn y sir

**Effaith prosiectau trawsnewidiol ledled Conwy/ Dadleoli swyddi i brosiectau mawr:** Mae'n debygol y bydd prinder llafur medrus a phrofiadol pan fydd y prosiectau trawsnewidiol mawr yn dechrau. Bydd hyn yn rhoi pwysau ar y gweithlu ehangach ac yn adleoli swyddi rhwng busnesau a sectorau

**Ansicrwydd oherwydd Brexit, chwyddiant a chyfraddau cyfnewid:** Mae risgiau ac ansicrwydd mewn nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â Brexit. Mae rhan helaeth o'n sector llety yn dibynnu ar lafur o wledydd tramor. Bydd cyfraddau cyfnewid anwadal yn effeithio ar fusnesau sy'n mewnforio nwyddau a gwasanaethau, fel ffermydd a busnesau gweithgynhyrchu. Bydd costau a chwyddiant yn cynyddu'n gyffredinol



# Atodiad 2: Bwrdd Twf Economaidd Sir Conwy


Er mwyn hyrwyddo a chydgysylltu'r camau i gyflawni'r Strategaeth, sefydlir Bwrdd Twf Economaidd newydd ar gyfer y sir. Bydd y bwrdd hwn yn gysylltiedig â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu themâu trawsbynciol y strategaeth:

- Cyflogaeth a sgiliau
- Seilwaith sy'n galluogi twf
- Gweddnewid twristiaeth
- Cael mwy o werth am arian yng Nghonwy
- Arweinyddiaeth egnïol
- Dull gweithredu allblyg

Er mwyn adlewyrchu'r themâu hyn, cynigir y bydd y sefydliadau/sectorau canlynol yn cael eu cynrychioli:

- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Sgiliau Cyngor Conwy
- Atebion Busnes Menter Gymdeithasol
- Y Sector Eiddo Masnachol
- Ystadau / perchenogion tir mawr
- Cyrchfan Conwy
- Venue Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Busnes a Thwristiaeth
- Ardal Gwella Busnes Bae Colwyn
- Grŵp Gweithredu Lleol Gwledig
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Sector Cartrefi Gofal
- Llywodraeth Cymru, Adfywio
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Cynrychiolydd Addysg Uwch
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Addysg
- Cynrychiolydd Dysgu Seiliedig ar Waith

# Atodiad 3: Nifer o swyddi PAYE (gweithwyr yn ogystal â pherchnogion sy'n gweithio) yn 2015





*Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol*

**Diwydiant cyffredinol - Bwrdeistref Sirol Conwy**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Swyddi** | **44,800** |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota * | 150 |
| Cynhyrchu | 1,950 |
| Adeiladu | 2,400 |
| Diwydiant cerbydau | 1,450 |
| Cyfanwerthu | 700 |
| Manwerthu | 5,900 |
| Cludiant a storio (gan gynnwys post) | 1,350 |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 6,500 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 550 |
| Cyllid ac yswiriant | 550 |
| Eiddo | 700 |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 2,250 |
| Gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi | 1,550 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 2,700 |
| Addysg | 5,850 |
| Iechyd | 7,350 |
| Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill | 2,950 |

** - Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amaethyddiaeth fferm (is-ddosbarth SIC 01000).*





**Categorïau Cyfun - Bwrdeistref Sirol Conwy**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Swyddi** | **44,800** |
| Amaethyddiaeth * | 150 |
| Cynhyrchu | 1,950 |
| Adeiladu | 2,400 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 8,050 |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 6,500 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 15,850 |
| Gwasanaethau eraill | 9,850 |

** - Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amaethyddiaeth fferm (is-ddosbarth SIC 01000).*


# Atodiad 4: Nifer o fentrau TAW a/neu PAYE yn 2016




*Ffynhonnell: Cofrestr fusnes rhyngadrannol y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

**Diwydiant Cyffredinol - Bwrdeistref Sirol Conwy**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Mentrau** | **5,285** |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 695 |
| Cynhyrchu | 225 |
| Adeiladu | 470 |
| Diwydiant cerbydau | 180 |
| Cyfanwerthu | 150 |
| Manwerthu | 620 |
| Cludiant a storio (gan gynnwys post) | 165 |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 605 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 155 |
| Cyllid ac yswiriant | 105 |
| Eiddo | 115 |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 495 |
| Gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi | 350 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 70 |
| Addysg | 130 |
| Iechyd | 385 |
| Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill | 370 |




**Categorïau Cyfun - Bwrdeistref Sirol Conwy**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Mentrau** | **5,285** |
| Amaethyddiaeth | 695 |
| Cynhyrchu | 225 |
| Adeiladu | 470 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 950 |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 605 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 585 |
| Gwasanaethau eraill | 1,755 |